NEWPORT
CITY COUNCIL
CYNGOR DINAS
CASNEWYDD

TRWYDDED GWAITH STRYD

PECYN CAIS

ADRAN 50
DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991

Manylion cyswllt

Ffôn: 01633 656 656

E-bost: street.works@newport.gov.uk

SYLWER AR Y CANLYNOL

GALL METHU Â SYLWI AR ADRANNAU PERTHNASOL DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991 ARWAIN AT ERLYNIAD.

BYDD METHIANT I GYFLWYNO'R WYBODAETH OFYNNOL YN ARWAIN AT DDYCHWELYD Y CAIS.

NI FYDD Y CYNGOR YN CADW UNRHYW WYBODAETH AC NI FYDD Y CAIS YN CAEL EI BROSESU.

BYDD YR ADFERIAD PARHAOL YN CAEL EI WARANTU GAN Y DRWYDDED AM GYFNOD O 2 FLYNEDD O DDYDDIAD YR ADFERIAD, AC EITHRIO LLE MAE'R DYFNDER CLODDIO DROS 1.5 METR PAN FYDD Y CYFNOD GWARANT YN 3 BLYNEDD.

NI CHAIFF UNRHYW WAITH EI WNEUD AR Y BRIFFORDD NES Y CAIFF TRWYDDED EI RHOI.

CYNNWYS

Nodiadau cyfarwyddyd i gynorthwyo â chwblhau'r pecyn cais

Tudalen 4 Deddf Rheoli Traffig 2004 / Nodiadau Canllawiau i Ymgeiswyr

Tudalen 6 – 10 Cais am Drwydded Gwaith Stryd / Amodau Safonol

Tudalen 11-13 Ffurflen SWL1 Ffurflen Gais Trwydded Gwaith Stryd
(I gynnwys llungopïau o'r ddwy ochr i gardiau SWQR Goruchwylydd a Gweithredwyr, tystysgrif yswiriant a chymeradwyaeth cysylltiad ar gyfer gosod offer carthffosydd newydd)

Tudalen 14 Ffurflen SWL2 Hysbysiad Ymlaen Llaw o Waith

Tudalen 15 Ffurflen SWL3 Cofrestru Gwaith

Tudalen 16 a 17 Ffurflen gais ar gyfer signalau traffig cludadwy / Amodau

Tudalen 18 Adran 74

Tudalen 19-20 Hysbysiad Ymlaen Llaw o Waith / Cofrestru Gwaith

Tudalen 21 Nodyn Rhybudd

Tudalen 22 Rhestr wirio

Mae'r Ffurflenni uchod i gyd i'w cwblhau a'u cyflwyno

DEDDF RHEOLI TRAFFIG 2004

Cyflwynwyd y Ddeddf Rheoli Traffig yn 2004 i fynd i'r afael â thagfeydd a tharfu ar y rhwydwaith ffyrdd. Mae'r Ddeddf yn gosod dyletswydd ar awdurdodau traffig lleol i sicrhau bod traffig yn symud yn ddidrafferth ar eu rhwydwaith ffyrdd a rhwydweithiau ffyrdd awdurdodau cyfagos. Mae'r Ddeddf yn rhoi dulliau ychwanegol i awdurdodau reoli'n well bolisïau parcio, y gwaith o orfodi traffig sy'n symud a'r gwaith o gydlynu **pob gweithgaredd ar y rhwydwaith, gan gynnwys gwaith stryd**.

Daw'r Ddeddf hon i rym ar 1 Ebrill 2008 a bydd yn newid y cyfnodau hysbysu sy'n ofynnol ar gyfer gwaith stryd.

Ceir gwybodaeth fanylach ar wefan yr Adran Drafnidiaeth
http://www.dft.gov.uk/pgr/roads/tpm/tmaportal

NODIADAU CANLLAW I YMGEISWYR

Rhaid i unrhyw berson (ac eithrio Ymgymerwr Statudol) sy'n dymuno gosod a chadw offer yn y stryd gan wedyn ei archwilio, ei gynnal a'i gadw, ei addasu, ei drwsio neu ei newid feddu ar Drwydded Gwaith Stryd. Rhoddir y drwydded hon i berchennog yr offer.

Cynghorir ymgeiswyr nad ydynt yn gyfarwydd â gofynion y ddeddfwriaeth hon yn gryf i benodi contractwr sydd â'r wybodaeth a'r achrediad priodol er mwyn helpu i gwblhau'r cais. Rhaid i'r gwaith gael ei wneud gan weithiwr achrededig a'i oruchwylio gan oruchwylydd achrededig.

Rhaid i'r gwaith ddechrau o fewn **TRI MIS** o ddyddiad rhoi'r drwydded. Rhaid cwblhau adferiad parhaol o fewn **CHWE MIS** o ddyddiad cwblhau unrhyw adferiad dros dro. Os na all gwaith ddechrau o fewn tri mis, yr Awdurdod Stryd sy'n penderfynu a fydd y drwydded yn cael ei thynnu'n ôl (a'r holl arian yn cael ei ad-dalu, llai ffi weinyddol) neu a fydd trwydded newydd yn cael ei rhoi yn seiliedig ar y cais gwreiddiol gyda dyddiadau gwaith newydd.

Rhaid i geisiadau gael eu **derbyn** o leiaf **UN MIS** cyn i'r gwaith arfaethedig ddechrau, wedi'u llofnodi gan berchennog yr offer presennol neu arfaethedig. Mae hyn er mwyn galluogi Cyngor Dinas Casnewydd (yr Awdurdod Stryd) i gyflawni ei ddyletswydd. Fodd bynnag, os yw'r gwaith yn rhan o'r categori Gwaith Mawr mae angen **TRI MIS** o rybudd.

D.S Dyma’r cyfnodau rhybuddio gofynnol ac efallai y bydd angen mwy o amser ar yr Awdurdod Stryd i brosesu'r cais mewn rhai amgylchiadau. Os bydd angen Cau Ffordd, rhaid derbyn y ddau gais o leiaf DRI MIS cyn dechrau'r gwaith arfaethedig.

Cyn dyfarnu Trwydded Gwaith Stryd i osod offer newydd, rhaid i'r Awdurdod Stryd roi dim llai na 10 diwrnod gwaith o rybudd i awdurdodau statudol a phartïon eraill â diddordeb.

CAIS AM DRWYDDED GWAITH STRYD / AMODAU SAFONOL

Rhaid i'r canlynol ddod i law neu gallai fod oedi wrth roi'r drwydded.

a) ***Ffurflen SWL1*** (Ffurflen Gais am Drwydded Gwaith Stryd) wedi'i chwblhau

b) **Y ffi ar gyfer y drwydded yw £660 am bob 100 metr** Taliad ymlaen llaw (sieciau'n daladwy i **Cyngor Dinas Casnewydd)**

Manylion Taliad BAC
Santander UK
Cod Didoli 09-07-20
Newport CC Collection Acc
Rhif y cyfrif 05070406

Wrth wneud Taliad BAC, nodwch 'TT04530088201' A50 ar y taliad.

c) **Cynllun graddfa** (o safon Arolwg Ordnans) o 1:1250 neu fwy o leoliad a dyfnder arfaethedig yr offer perthnasol wedi'i farcio â llinell goch doredig a chyfeirnod grid ar gyfer y safle cloddio;

ch) **Prawf o Ganiatâd i Gysylltu â'r Rhwydwaith** (Ar gyfer offer newydd).

Rhaid cyflwyno'r canlynol yn yr achos cyntaf (caiff copïau eu cadw ar ffeil i geisiadau yn y dyfodol, tra eu bod yn ddilys)

a) **Tystiolaeth o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus**. Rhaid i hwn yswirio o leiaf **£10m** a bod yn ddilys dros gyfnod y gwaith ac nid ar adeg y cais yn unig.

b) **Tystiolaeth o Achrediad Gwaith Stryd** (Copi o'r ddwy ochr i gardiau SWQR Goruchwylydd a Gweithredwyr). Rhaid i oruchwylydd achrededig oruchwylio'r gwaith, a rhaid i o leiaf un gweithredwr achrededig fod ar y safle bob amser pan fydd y gwaith yn mynd rhagddo. **D.S. ni all hwn fod yr un person.**

Cysylltwch â'r Rheolwr Gwaith Stryd yng Nghyngor Dinas Casnewydd i gael cymorth os oes angen Goleuadau Traffig neu Gau Ffyrdd. Y rhif ffôn yw 07970 076410.

Mae'r diffiniad o offer yn cynnwys draeniau, ceblau, dwythellau, pibellau carthffosydd, pibellau dŵr a nwy ac ati o dan, dros, ar draws, ar hyd neu ar stryd.

Caiff Trwydded Gwaith Stryd i osod offer neu ganiatâd i weithio ar offer presennol ar y briffordd ei rhoi/roi dim ond i berchennog offer neu ei Olynydd yn y Teitl. Dylai perchnogion nodi eu dyletswydd statudol i sicrhau bod yr offer yn cael ei gynnal a'i gadw'n briodol bob amser.

Daw'r person a gafodd Drwydded Gwaith Stryd yn Ymgymerwr at ddibenion Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991, ac felly mae arno'r dyletswyddau a'r cyfrifoldebau a osodir gan y Ddeddf ac Is-ddeddfwriaeth a Chodau Ymarfer cysylltiedig.

Mae adran 74 o Ddeddf 1991 yn golygu y gall deiliad y Drwydded fod yn atebol i ffioedd a godir dan yr adran hon am feddiannu'r briffordd am gyfnod afresymol o hir, neu os na gyflwynir yr hysbysiadau cywir mewn perthynas â'r adran hon. Nid yw'r Adran hon wedi'i gweithredu eto gan Gyngor Dinas Casnewydd.

Dim ond i ymgeisydd a fydd yn berchen ar yr offer ac a fydd yn gyfrifol amdano y gellir rhoi'r drwydded hon. Ni all fod yn berthnasol mewn sefyllfaoedd lle bydd trydydd parti yn berchen ar yr offer a osodwyd ac yn ei gynnal a'i gadw.

Amodau Safonol

Amodau Trwydded Gwaith Stryd yn ymwneud â Gosod, Cadw a Chynnal Offer yn y Stryd

(A50 ac Atodlen 3 Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991)

1. Ni fydd y Trwyddedai'n cyflawni unrhyw waith cloddio neu waith arall ar y briffordd ac eithrio yn unol â chynllun, i'w gyflwyno gyda'r cais hwn, a'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Priffyrdd. Caiff y gwaith ei wneud gan y Trwyddedai neu asiant sydd wedi'i gymeradwyo gan yr Awdurdod Priffyrdd a dan oruchwyliaeth yr Awdurdod Priffyrdd. Mae Rheoliadau Gwaith Stryd (Cymwysterau Goruchwylwyr a Gweithredwyr) 1992 yn rhestru meini prawf cymwysterau ar gyfer pobl sy'n cloddio yn y briffordd sy'n ofynnol dan Adran 67 Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. At ddibenion cyflawni'r gwaith, bydd y Trwyddedai neu'r asiant yn cydymffurfio â'r Codau Ymarfer ar gyfer Hyfforddiant a gyhoeddwyd dan Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. Yn benodol bydd y goruchwylydd a'r gweithredwr wedi'u hyfforddi a'u hachredu i ofynion y Codau Ymarfer. Rhaid cyflwyno tystiolaeth o achrediad o'r fath gyda'r cais hwn.

2. Bydd y Trwyddedai'n indemnio Cyngor Dinas Casnewydd fel yr Awdurdod Priffyrdd o ran unrhyw hawliadau Trydydd Parti, costau neu weithdrefnau yn sgil anaf, difrod neu golled a allai ddigwydd o ganlyniad i'w waith ar y briffordd. Bydd y Trwyddedai'n sicrhau yswiriant sy'n indemnio'r Trwyddedai a'r Cyngor, drwy gydol y gwaith a than i'r Cyngor ailafael yn y cyfrifoldeb dros gynnal a chadw'r briffordd yn unol ag Amod 14. Bydd y fath yswiriant yn rhoi indemniad sydd heb fod yn llai na £10 miliwn parthed pob un o'r digwyddiadau neu gyfres o ddigwyddiadau a achosir gan neu y gellir eu priodoli i unrhyw ddigwyddiad sy'n arwain at hawliad. Caiff copi o'r dystysgrif a'r polisi yswiriant ei atodi i'r cais hwn.

3. Bydd y Trwyddedai'n rheoleiddio'r gwaith i leihau rhwystrau i gerbydau a cherddwyr a bydd yn diogelu'r gwaith yn unol â Phennod 8 Llawlyfr Arwyddion Traffig 2006 a gyhoeddwyd gan TSO a Chod Ymarfer Diogelwch mewn Gwaith Stryd a Gwaith Ffordd 2001 sy'n rhoi arweiniad penodol ar arwyddion, goleuadau a mesurau diogelu gwaith dros dro ar y Briffordd, fel sy'n ofynnol dan Adran 65 Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991. Caiff ardal y gwaith ei chynnal a'i chadw mewn cyflwr glân a thaclus yn ystod y gwaith.

4. Ni fydd y Trwyddedai'n amharu ar unrhyw ddraen, ceuffos, gyli, pont, wal na seilwaith arall heb ganiatâd penodol gan yr Awdurdod Priffyrdd.

5. Ac eithrio yn unol â'r drwydded hon, ni chaiff unrhyw ran o'r briffordd ei chau, **AR UNRHYW ADEG**, heb gydsyniad yr Awdurdod Priffyrdd.

6. Nid yw rhoi trwydded i gloddio'r briffordd dros dro yn awdurdodi'r Trwyddedai i amharu ar unrhyw offer sydd eisoes ar y stryd. Rhaid cynnal mynediad drwy'r amser at unrhyw offer ar y briffordd.

7. Bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn cyflwyno hysbysiadau i'r Ymgymerwyr Statudol yn unol â gofynion Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 ar ran yr ymgeisydd. Oni bai am achosion o argyfwng, rhaid i hysbysiadau o'r fath gael eu creu o leiaf 25 diwrnod gwaith cyn dechrau'r gwaith. Bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am gyflawni unrhyw waith sy'n ofynnol gan Ymgymerwr Statudol mewn ymateb i hysbysiad, neu ar ôl hynny i ddiogelu offer. Cyn dechrau unrhyw waith bydd yr ymgeisydd yn penderfynu ar union leoliad unrhyw offer Ymgymerwr Statudol (SWL4). Bydd yr ymgeisydd yn amserlennu ar gyfer y broses hysbysu wrth raglennu ei waith.

8. Os nad oes unrhyw wrthwynebiadau i'r gwaith (gan gynnwys gan Ymgymerwyr Statudol) bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn rhoi trwydded. (Ni fydd gwaith yn dechrau nes i'r drwydded hon gael ei chymeradwyo a'i rhoi). Bydd y drwydded yn ddilys am dri mis o'r dyddiad cyhoeddi.

9. Codir tâl ar yr ymgeisydd am unrhyw waith y mae angen i'r Awdurdod Priffyrdd ei wneud o ganlyniad i'r ffaith bod y Trwyddedai wedi methu â chydymffurfio ag amodau'r drwydded. Yn ogystal, bydd yr ymgeisydd yn gyfrifol am unrhyw archwiliadau pellach y gallai fod eu hangen yn yr un modd ag Adran 72 (2) Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991.

10. Os bydd y gwaith yn cael ei ganslo ar ôl cyflwyno'r ffurflen gais caiff ffi weinyddol ei chodi ar yr ymgeisydd i dalu am gostau gweinyddol.

11. Caiff y gwaith ei adfer yn unol â'r fanyleb a roddwyd gan yr Awdurdod Priffyrdd. Caiff unrhyw waith cloddio ei adfer o leiaf dros dro gyda macadam bitwmen cyn gwaredu unrhyw arwyddion a rhwystrau. Ni ddylid agor unrhyw ffos i ddefnyddwyr y briffordd heb osod o leiaf un haen o fitwmen dros dro, sydd yr un lefel â'r briffordd gyfagos. Ni chaniateir calchfaen ar yr haen dreulio. Bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn cytuno ar unrhyw adferiad dros dro.

12. Ar ôl cwblhau'r gwaith caiff yr ardal ei gadael yn lân ac yn daclus at foddhad yr Awdurdod Priffyrdd.

13. O fewn pum diwrnod gwaith o gwblhau'r gwaith bydd y Trwyddedai'n rhoi hysbysiad ysgrifenedig i'r Awdurdod Priffyrdd. Gwneir hyn trwy'r ffurflen ***SWL3*** '**Cofrestru Gwaith**' sydd ym mhecyn y drwydded.

14. Fel arfer, dwy flynedd (3 blynedd ar gyfer cloddiadau sy'n fwy nag 1.5 metr) o union ddyddiad cwblhau'r gwaith fydd y dyddiad a'r amser y bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn ailddechrau bod yn gyfrifol am gynnal a chadw gwaith ar y briffordd, ar wahân i offer. Nes y bydd yr Awdurdod

Priffyrdd yn ailddechrau bod yn gyfrifol am y gwaith, bydd y Trwyddedai'n gyfrifol am unrhyw hawliadau sy'n deillio o'r gwaith neu unrhyw waith cynnal a chadw angenrheidiol a chostau cysylltiedig. Bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn penderfynu pa waith sydd ei angen.

15. Ni chaiff unrhyw waith ei wneud ar y briffordd nes y caiff trwydded ei rhoi.

16. Gall y Rheolwr Gwaith Stryd neu ei gynrychiolydd, yn ôl yr angen, ychwanegu amodau pellach i'r drwydded.

SWL _____ *(At ddefnydd swyddfa'n unig)*	**GORCHYMYN CYNGOR DINAS CASNEWYDD** **CAIS AM DRWYDDED GWAITH STRYD**	***Ffurflen SWL1***

Adran 1. Perchennog yr Offer

Enw: _____

Cyfeiriad: _____

Cod post:_____Ffôn Gwaith_____Ffôn Cartref_____

Cyfeiriad E-bost: _____
Ffôn Symudol: _____

Adran 2. Union Leoliad y Gwaith Arfaethedig (Rhaid cyflwyno cynllun manwl gyda'r ffurflen. **Cynllun graddfa** o safon Arolwg Ordnans o 1:1250)

Enw / Rhif yr Eiddo: _____
Ffordd / Stryd:_____

Dinas / Tref / Pentref_____: Cod Post:_____

(Ticiwch flychau lle bo angen)

Gosod Offer Newydd / Gweithio ar yr Offer presennol / Ôl-weithredol

Categori Brys ☐ Mân Waith ☐ Gwaith Safonol ☐

Oriau gwaith arfaethedig Yn ystod y dydd ☐ Gyda'r Nos ☐ Cyfyngedig ☐

Dyfnder cyfartalog y gwaith cloddio Hyd at 1.5m ☐ Dros 1.5m ☐ Dim cloddio ☐

Rheoli Traffig Arfaethedig Cau Ffordd* ☐ Dros Dro Signalau Traffig* ☐
Arwyddion Stopio / Mynd ☐
Llif Blaenoriaeth ☐ Dim ☐

Gweler y nodiadau canllaw. Bydd angen gwneud cais am y rhain ar wahân

Mae'r gwaith ar: Lain ymyl ☐ Troedffordd ☐ Lôn gerbydau ☐ Pob un ☐

Disgrifiad o waith (gan gynnwys hyd a lled amcangyfrifedig):

Pa ddeunydd sy'n cael ei ddefnyddio i Amgylchynu'r Offer?_____

Adran 3. Manylion person neu gwmni sy'n cynnal y gwaith

Enw: _____

Cyfeiriad: _____

_____ Cod Post:_____

Ffôn: _____ Ffacs: _____

Cyfeiriad E-bost: _____
Ffôn symudol _____

Adran 3 Parhad:

Enw'r Gweithredwr achrededig: _____ Rhif SWQR _____

Enw'r Goruchwylydd achrededig: _____Rhif SWQR_____
Mae angen llungopïau o achrediad Gwaith Stryd

MANYLION CYSWLLT BRYS (Rhif cyswllt 24 awr)

Enw:_____

Ffôn: _____

Adran 4. Yswiriant Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus sy'n yswirio o leiaf £10 miliwn hyd at gwblhau'r adferiad parhaol.

Mae angen llungopi o'r dystysgrif yswiriant

Enw'r Cwmni:
_____

Cyfeiriad:
_____

Rhif Ffôn: _____ Rhif Polisi: _____
Dyddiad Dod i Ben: _____

Adran 5. Datganiad gan berchennog yr offer

Cadarnhaf fod y manylion uchod yn gywir, a chydnabyddaf fod rhaid cwblhau'r gwaith y cyfeirir ato uchod yn unol â gofynion Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 a Deddf Rheoli Traffig 2004, deddfwriaeth gysylltiedig a chodau ymarfer, ynghyd ag unrhyw amodau eraill a osodir gan yr Awdurdod Stryd yn y Drwydded berthnasol, sy'n cynnwys fy nyletswydd i sicrhau bod y gwaith yn cael ei oruchwylio gan oruchwylydd achrededig.

Cadarnhaf fod yr holl gamau rhesymol ymarferol wedi'u cymryd i sicrhau y cysylltir â pherchenogion offer y mae'n debygol yr effeithir arnynt gan y gwaith hwn a lle bo'n bosibl y caiff lleoliad yr offer ei nodi. D.S. Argymhellir nad yw canlyniadau unrhyw ymholiad yn hŷn na mis.

Cydnabyddaf yr angen statudol i mi dalu'r ffioedd archwilio penodol a osodir gan yr Awdurdod Stryd, gan gynnwys ffioedd archwilio diffygion a chost unrhyw waith atgyweirio angenrheidiol gan yr Awdurdod Stryd yn ystod cyfnod y warant.
Cydnabyddaf hefyd y rhoddir y drwydded ar yr amod y byddaf yn indemnio'r Awdurdod Stryd yn erbyn unrhyw hawliad mewn perthynas ag anaf, difrod neu golled sydd o ganlyniad i:

a) Gosod neu bresenoldeb offer, y mae'r drwydded yn berthnasol iddo, yn y stryd, neu
b) Proses unrhyw berson o wneud unrhyw waith a awdurdodir gan y drwydded.

Cydnabyddaf hefyd fy mod wedi darllen a deall y Nodiadau Canllaw a'r Amodau Safonol a atodir (DS gallai amodau penodol pellach gael eu gosod ar adeg rhoi'r drwydded).

Llofnod: _____Dyddiad: _____

Enw mewn Llythrennau
Bras:_____

Yn rhinwedd: _____

PWYSIG

Anfonir pob gohebiaeth yn ymwneud â'r drwydded hon i:

Cyngor Dinas Casnewydd,
Tîm Gwaith Stryd,
Gwasanaethau'r Ddinas,
Y Ganolfan Ddinesig,
Godfrey Road,
Casnewydd
NP20 4UR

Cyfeiriad e-bost: street.works@newport.gov.uk

	DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991 HYSBYSIAD YMLAEN LLAW O WAITH	*Ffurflen SWL2*

I **Cyngor Dinas Casnewydd,** **Tîm Gwaith Stryd,** **Strydlun,** **Y Ganolfan Ddinesig,** **Godfrey Road,** **Casnewydd** **NP20 4UR**	O Ffacs

Dyddiad Dechrau Disgwyliedig				Dyddiad Cwblhau Disgwyliedig			

A oes yna unrhyw Anhawster Peirianneg Arbennig?	Oes / Nac oes	Os Oes	Ydy'r Awdurdod Perthnasol wedi Cymeradwyo'r Gwaith (e.e. unrhyw gytundebau 106 a allai fod yn berthnasol i gysylltiadau carthffos Dŵr Cymru)	Ydy / Nac ydy

LLEOLIAD

Disgrifiad neu Enw neu Rif Tŷ

Enw'r Stryd
Enw'r Ardal Leol

Tref

Cod Post										**Cyf Grid AO**												

DISGRIFIAD O'R GWAITH (gan gynnwys Dulliau Adeiladu, Amcan o hyd a lled y gwaith, Rheoli Traffig ac ati.)

	DEDDF FFYRDD NEWYDD A GWAITH STRYD 1991 COFRESTRU GWAITH	*Ffurflen SWL3*

Cyfeirnod (Defnydd swyddfa'n unig) **SWL_____**

I **Cyngor Dinas Casnewydd,** **Tîm Gwaith Stryd,** **Strydlun,** **Y Ganolfan Ddinesig,** **Godfrey Road,** **Casnewydd** **NP20 4UR**	O Ffacs

Union Ddyddiad Dechrau				Union Ddyddiad Cwblhau			

LLEOLIAD

Disgrifiad neu Enw neu Rif Tŷ

Enw'r Stryd

Enw'r Ardal Leol

Tref

Cod Post										**Cyf Grid AO**												

DISGRIFIAD O'R GWAITH

ADFERIAD Lleoliad		**Dimensiynau Terfynol**				**Dyddiad Cwblhau'r Gwaith:**					
Eitem		**Hyd (m)**	**Lled (m)**	**Lôn gerbydau / Troedffordd neu Lain ymyl ***	**Dyfnder cloddio yn fwy na 1.5m**	**Dros dro** D M B			**Parhaol** D M B		
1											
2											
3											
4											

***Os yw'r adferiad yn fwy nag un rhan o'r briffordd, rhowch y dimensiynau ar gyfer pob rhan**

Braslun o'r lleoliad – Gan gynnwys mesuriadau yn erbyn gwrthrychau sefydlog (defnyddiwch ddalen ar wahân os oes angen)

RHOWCH GOPI O'R TOCYNNAU CHWAREL AM UNRHYW DDEUNYDDIAU A DDEFNYDDIWYD AR GYFER Y GWAITH ADFER

Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991

CAIS I DDEFNYDDIO GOLEUADAU TRAFFIG CLUDADWY

RHEOLIADAU A CHYFARWYDDIADAU CYFFREDINOL ARWYDDION TRAFFIG 1994 Rhif: 1519

<table>
<tr><td colspan="3">(Ticiwch)

CAIS AM FESURAU RHEOLI SIGNALAU AMLWEDD

HYSBYSIAD O FESURAU RHEOLI SIGNALAU DWYFFORDD

CAU LÔN</td><td>Ein Cyf:</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="3" rowspan="4">O:</td><td>Aw Priff:</td><td></td></tr>
<tr><td>Rhif yr Hysbysiad:</td><td></td></tr>
<tr><td>Enw Cyswllt:</td><td></td></tr>
<tr><td>Ffôn:</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="3">Cleient:</td><td>Ffôn:</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="3">Ffacs:</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="3">Cyswllt y Tu Allan i Oriau:</td><td></td></tr>
<tr><td>Argyfwng / Brys - 2 awr</td><td></td><td>Difrifol - 1 mis</td><td></td><td>Safonol - 10 Diwrnod</td><td></td><td>Mân - 3 Diwrnod</td><td></td></tr>
<tr><td>Dyddiad Dechrau:</td><td colspan="3"></td><td>Dyddiad Gorffen:</td><td colspan="3"></td></tr>
<tr><td>Lleoliad y Gwaith:</td><td colspan="7"></td></tr>
<tr><td>Rhif Ffordd:</td><td></td><td>Cyf Grid AO:</td><td></td><td colspan="4">A yw'r safle'n cynnwys cyffordd? YDY / NAC YDY</td></tr>
<tr><td colspan="8">Llwybr Sensitif o ran Traffig? YDY / NAC YDY (Os YDY, siaradwch â'r Awdurdod Priffyrdd)</td></tr>
<tr><td colspan="8">A yw'r safle ger Signal Traffig / Croesfan sy'n bodoli eisoes? YDY / NAC YDY</td></tr>
<tr><td colspan="8">A oes angen diffodd goleuadau signal? OES / NAC OES</td></tr>
<tr><td colspan="8">Diben y Gwaith:</td></tr>
<tr><td>Oriau Gweithredu:</td><td colspan="2"></td><td>TAN</td><td colspan="2"></td><td colspan="2">Gweithredu 24 awr IE / NA</td></tr>
<tr><td colspan="8">MAE ANGEN Y WYBODAETH YCHWANEGOL GANLYNOL ER MWYN CYMERADWYO GWEITHREDU AMLWEDD</td></tr>
<tr><td colspan="3">Amseru Amlwedd?</td><td colspan="5">Darperir Cyfleusterau i Gerddwyr IE / NA</td></tr>
<tr><td colspan="3">Lled Ffordd Gweddilliol:</td><td colspan="4">Nifer o Signalau</td><td></td></tr>
<tr><td colspan="8">4 COPI O'R CYNLLUNIAU SAFLE, Y CYNLLUNIAU LLEOLIAD YN DANGOS SAFLE PENNAU'R SIGNALAU</td></tr>
<tr><td colspan="8">DATGANIAD:
RWYF I / RYDYM NI yn ardystio drwy hyn y bydd y signal traffig cludadwy a ddefnyddir yn fath a gymeradwyir ar hyn o bryd gan yr Adran Drafnidiaeth a Llywodraeth Cymru:</td></tr>
<tr><td colspan="2">Llofnod:</td><td colspan="3">Enw:</td><td colspan="3">Dyddiad:</td></tr>
</table>

CYMERADWYWYD GAN:

	DYDDIAD:	

Amodau sy'n ymwneud â'r cais am signalau traffig cludadwy

Mae Rheoliadau a Chyfarwyddiadau Cyffredinol Arwyddion Traffig 2002 OS 3113 yn caniatáu defnyddio signalau traffig cludadwy yn unol â rheoliad 35 ar yr amodau canlynol:
Mae math yr offer wedi'i gymeradwyo.
Mae'r offer yn gallu dechrau gweithio drwy gael ei actifadu gan gerbyd.
Mae'r safle'n cynnwys system draffig unffordd bob yn ail syml heb unrhyw gyffyrdd ar hyd y darn o ffordd a reolir.
Hysbysir yr Awdurdod Priffyrdd neu'r Awdurdod Asiant pan ddefnyddir signalau rheoli.
Cyhoeddir cod ymarfer Diogelwch mewn Gwaith Stryd a Gwaith Ffyrdd dan Adran 65.3 Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd.

Caiff yr holl signalau eu darparu, eu gosod, eu cynnal a'u cadw a'u symud ar y safle yn unol â Phennod 8 y cod ymarfer diogelwch mewn gwaith stryd a gwaith ffyrdd a Rheoli Traffig Dros Dro ar Ffyrdd Cyflym Uchel.

Amodau Cyffredinol

Mae angen cymeradwyaeth safle-benodol gan yr Awdurdod Priffyrdd ar gyfer signalau traffig cludadwy a ddefnyddir i reoli cyffyrdd (h.y. mwy nag un system draffig unffordd bob yn ail) neu groesfannau peiriannau trwm.

Rhaid i bob arwydd gydymffurfio â "Phennod 8" a'r "Cod Ymarfer Diogelwch mewn Gwaith Stryd".

Rhaid i'r holl signalau traffig cludadwy gael eu gweithredu yn unol â llyfryn yr Adran Drafnidiaeth "An Introduction to the use of Vehicle Actuated Portable Traffic Signals". Dim ond gyda chaniatâd ysgrifenedig yr Awdurdod Priffyrdd y rheolir y signalau â llaw er mwyn eu gweithredu ar amseroedd penodol.

Caiff pob person sy'n defnyddio'r briffordd lle caiff y traffig ei reoli wybod am y dyddiadau y mae'r ymgeisydd yn bwriadu gweithredu'r signalau traffig cludadwy.

Rhaid rhoi manylion Cynlluniau Safle a Chynlluniau Lleoliad sy'n dangos safle'r goleuadau a'u hamseroedd.

Sefydlu'r Safle

Rhaid i'r holl arwyddion rhybuddio ymlaen llaw priodol, yn unol â gofyniad pennod 8 y Llawlyfr Arwyddion Traffig gael eu gosod cyn lleoli'r signalau.

Rhaid i'r pellter mwyaf rhwng y signalau traffig cludadwy beidio â bod yn fwy na 300m. Rhaid sefydlu'r signalau fel eu bod yn caniatáu gofod gweithio yn unig ac nad ydynt yn caniatáu parcio i gerbydau nad oes eu hangen ar y safle.

Rhaid sefydlu signalau traffig cludadwy gyda gosodiadau amser yn unol â hyd y safle. Rhaid cadw'r cyfnod defnyddio a hyd y system draffig unffordd bob yn ail i leiafswm. Rhaid i signalau weithredu gan gael eu hactifadu gan gerbyd oni bai bod dewis arall yn cael ei gytuno'n ysgrifenedig.

Pan fydd angen diffodd unrhyw signalau parhaol, rhaid i'r hyrwyddwr gysylltu â'r Awdurdod Priffyrdd ymlaen llaw. Mae angen o leiaf 2 wythnos o rybudd fel y gellir gwneud y trefniadau angenrheidiol. Mae tâl am y weithdrefn hon fel y nodir yn y Ffioedd a Thaliadau a gymeradwywyd gan Gyngor Dinas Casnewydd ym mis Hydref 2008:-

"Diffodd / troi ymlaen ar gyfer gofynion Cyfleustodau a Thrydydd Parti:
Dydd Llun – Dydd Gwener 08.00 – 18.00 - Cyfanswm o £484 ar gyfer diffodd a throi ymlaen
Dydd Llun – Dydd Gwener 18.00 – 8.00 - Cyfanswm o £572 ar gyfer diffodd a throi ymlaen
Penwythnos / Gwyliau Banc - Cyfanswm o £572 ar gyfer diffodd a throi ymlaen

Os na ellir sefydlu'r safle fel y cynlluniwyd, rhaid i'r hyrwyddwr gysylltu ar unwaith â'r Awdurdod Priffyrdd i drafod.

Ystyriaethau amgylcheddol

Mewn ardaloedd adeiledig neu breswyl, gall cysylltu signalau â'r prif gyflenwad pŵer fod yn well. Rhaid ymgynghori â'r Cyflenwr Trydan a all godi tâl am y cyflenwad.
Lle bynnag y bo'n bosibl, rhaid defnyddio goleuadau traffig a weithredir gan fatri ac a reolir gan radio.

Rhaid i bob generadur fodloni gofynion a43 Deddf Diogelu'r Amgylchedd 1990. ***Cynnal a Chadw***
Rhaid i gyflenwr / llogwr y signalau ddarparu ac arddangos ar yr offer ar y safle y rhif galw allan ar gyfer gwaith cynnal a chadw. Rhaid iddo ymateb i unrhyw alwadau o fewn dwy awr.

ADRAN 74

Os bydd yn cymryd mwy o amser na'r amser sydd ar yr hysbysiad i gwblhau'r gwaith, gallant fod yn destun y costau canlynol fesul diwrnod ychwanegol:

Costau fesul diwrnod ar ôl y cyfnodau a hysbyswyd / a gytunwyd

Categori Ffordd	
Math 0	**Cefnffyrdd a Thraffyrdd**
Math 1	**Ffyrdd A**
Math 2	**Ffyrdd B**
Math 3	**CIII**
Math 4	**Ffyrdd Di-ddosbarth**

	Math Ffordd 0/1	**Math Ffordd 2**	**Math Ffordd 3 / 4 (TS)**	**Math Ffordd 3 / 4 (Ddim yn TS)**	**Cyfnod a Bennwyd**
Ar Unwaith - Argyfwng / Brys	**£500**	**£500**	**£250**	**£100**	**Yn ôl manylion yr hysbysiad neu gyfnod arall a gytunwyd.**
Mân	**£500**	**£500**	**£250**	**£100**	**hyd at 3 diwrnod**
Gwaith Mawr a Safonol	**£2500**	**£2000**	**£750**	**£250**	**Safonol yw 4-10 diwrnod Mawr yw 11+**

Sylwer:

***1** fel y'i diffinnir gan A1.3 Categorïau Ffordd yn y Fanyleb ar gyfer Adfer Agorfeydd mewn Priffyrdd (Ail Rifyn 2006).

***2** codir tâl am unrhyw ddiwrnodau ychwanegol i wneud Gwaith Adfer ar y raddfa sy'n briodol i gategorïau gwaith y gwaith newydd.

*3 Mae costau adran 74 yn cael eu hadolygu ar hyn o bryd a gallent newid yn y dyfodol agos.

RHYBUDD YMLAEN LLAW O WAITH

Gwaith Mawr

Gwaith y mae angen Cau Ffordd ar ei gyfer neu waith y disgwylir iddo bara 10 diwrnod gwaith neu fwy. - Rhaid cyflwyno cais **DRI MIS** cyn dyddiad dechrau'r gwaith. Rhaid i'r Trwyddedai roi rhybudd o **DDEG DIWRNOD GWAITH** cyn y dyddiad cychwyn arfaethedig i'r Awdurdod Strydoedd gan ddefnyddio ***Ffurflen SWL2***.

Gwaith Safonol

Gwaith y disgwylir iddo bara ddim mwy na 10 diwrnod gwaith. -
Rhaid cyflwyno cais **UN MIS** cyn dyddiad dechrau'r gwaith. Rhaid i'r Trwyddedai roi rhybudd o **DDEG DIWRNOD GWAITH** cyn y dyddiad cychwyn arfaethedig i'r Awdurdod Strydoedd gan ddefnyddio ***Ffurflen SWL2***.

Mân Waith

Gwaith y disgwylir iddo bara ddim mwy na 3 diwrnod gwaith. -
Rhaid cyflwyno cais **UN MIS** cyn dyddiad dechrau'r gwaith. Rhaid i'r Trwyddedai roi rhybudd o **DRI DIWRNOD GWAITH** cyn y dyddiad cychwyn arfaethedig i'r Awdurdod Strydoedd gan ddefnyddio ***Ffurflen SWL2***.

Gwaith Brys

Gwaith y mae angen ei wneud i atal neu derfynu amgylchiadau a allai achosi niwed i bobl neu eiddo a rhaid hysbysu'r Awdurdod Stryd o fewn dwy awr i'r gwaith ddechrau.

Rhaid cyflwyno'r canlynol gyda'r ffurflen gais.

a. **Cynllun graddfa** (o safon Arolwg Ordnans) o 1:1250 o leoliad a dyfnder arfaethedig yr offer perthnasol wedi'i farcio â llinell goch doredig a chyfeirnod grid ar gyfer y safle cloddio;
b. **Tystiolaeth o Yswiriant Atebolrwydd Cyhoeddus** Rhaid i hwn yswirio o leiaf **£10m**;
c. **Tystiolaeth o Achrediad Gwaith Stryd** (Copi o'r ddwy ochr o gardiau SWQR y Goruchwylydd a'r Gweithredwyr). Rhaid i oruchwylydd achrededig oruchwylio'r gwaith, a rhaid i o leiaf un gweithredwr achrededig fod ar y safle bob amser pan fydd y gwaith yn mynd rhagddo. **D.S. ni all hwn fod yr un person.**
ch. **Ceisiadau am wasanaethau rheoli traffig, os yn berthnasol.**
d. **Unrhyw wybodaeth resymol arall y gallai'r awdurdod stryd ofyn amdani.**

Yn achos **Gwaith Brys** rhaid i weddill y cais gael ei brosesu yn **ÔL-WEITHREDOL**.

Gwaith Adferol

Gwaith sy'n cael ei wneud i gywiro adferiad diffygiol yw hwn.
Bydd angen rhybudd o 10 diwrnod ymlaen llaw wrth gyflawni gwaith adferol.

Dylai ymgeiswyr gadw mewn cof y gallai'r Awdurdod Stryd osod amodau arbennig a rhaid cydymffurfio â nhw: -

a) er diogelwch;
b) i leihau anghyfleustra i bobl sy'n defnyddio'r stryd, gyda golwg ar bobl sydd ag anabledd yn benodol;
c) ar gyfer Strydoedd Sensitif o ran Traffig, Strydoedd gydag Anawsterau Peirianneg Arbennig a Strydoedd Gwarchodedig ac i ddiogelu strwythur y stryd a'r offer sydd arni.

Bydd yr Awdurdod Stryd yn monitro'r gwaith ar y camau canlynol.

a) Pan fo'r gwaith yn cael ei wneud;
b) Yn ystod y cyfnod o chwe mis gan ddechrau gyda dyddiad cwblhau'r adferiad parhaol neu dros dro;
c) Yn ystod y cyfnod o dri mis yn syth ar ôl diwedd y cyfnod gwarantu (Am 2 flynedd o'r dyddiad adfer parhaol ar gyfer cloddiadau sy'n 1.5m o ddyfnder a 3 blynedd am rai dyfnach).

COFRESTRU GWAITH

Rhaid i'r Trwyddedai gwblhau a chyflwyno ***Ffurflen SWL3*** gan roi manylion am waith adfer i'r Awdurdod Gwaith Stryd ymhen **DENG DIWRNOD GWAITH** o gwblhau'r gwaith a chlirio'r safle. Dylid hefyd gyflwyno **lluniad manwl ar Raddfa 1/1250** yn dangos dyfnder gwirioneddol yr offer a'i leoliadau wedi'u mesur yn erbyn gwrthrychau / strwythurau sefydlog (**Rhaid i adferiadau dros dro gael eu gwneud yn barhaol o fewn 6 mis** ac yn ystod yr amser hwnnw rhaid iddynt berfformio i'r un safonau ag adferiad parhaol).
Atodwch gopi o'r tocynnau chwarel ar gyfer unrhyw ddeunyddiau a ddefnyddiwyd yn y gwaith adfer.

YMHOLIADAU OFFER YMGYMERWYR STATUDOL

Cyfleustodau:	**Rhif Ffôn:**
British Telecom	0800 800 151
Grid Cenedlaethol (Transco) a Wales & West Utilities (Nwy)	0800 111 999
Virgin Media Ltd (NTL)	0870 888 3116
Dŵr Cymru (Dŵr Glân)	0800 052 0130
Dŵr Cymru (Carthffosydd Cyhoeddus)	0800 085 3968
Western Power Distribution (Trydan)	0800 052 0400

NODYN

Mae'r Briffordd yn cynnwys y lôn gerbydau, y droedffordd ac unrhyw lain ymyl.

Os bydd yr ymgeisydd yn gwrthwynebu'r amodau hyn neu os bydd yr Awdurdod Priffyrdd yn gwrthod rhoi trwydded, yna gellir apelio i'r Ysgrifennydd Gwladol.

Cyflawnir trosedd os caiff Adran 51(1) Deddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 ei thorri.

Dylai pob ymgeisydd wirio eu bod wedi amgáu'r dogfennau canlynol, er mwyn peidio â gohirio'r broses gymeradwyo.

(Ticiwch)

Ffurflen Gais (SWL1)	☐
Ffurflen Hysbysiad Ymlaen Llaw o Waith (SWL2)	☐
Prawf o Achredu	☐
Tystiolaeth o Yswiriant	☐
Cynlluniau Gosodwaith Arfaethedig	☐
Ffi	☐
Ymholiadau lleoliad offer a anfonwyd i Cyfleustodau	☐
Cymeradwyo Cysylltiad (Offer Newydd yn Unig)	☐